



Nifer o fusnesau a gofrestrwyd:

**12,615**



Y nifer o unigolion a gofrestrwyd:

**26,538**

## Hyfforddiant

Cyrsiau	Y nifer o unigolion a hyfforddwyd yn ystod y cyfnod
Cymorth Cyntaf yn y Gweithle mewn Argyfwng	44
Cadw llyfrau	41
Cynllunio i Arallgyfeirio neu Fenter Newydd ar Fferm	19
Marchnata eich Busnes	15
Cynllunio a datblygu busnes	12

## E-ddysgu

Rhai o'r cyrsiau e-ddysgu a gwblhawyd yn ystod y cyfnod hwn:

ARALLGYFEIRIO BUSNES FFERM	TAW
FFERMIO CYDWEITHREDOL AC AR Y CYD	CYNLLUNIO A CHYLLID

Cliciwch yma i ymweld â'r wefan.

## Cymorthfeydd

CYNHALIWDYD **64** CYMHORTHFA  
gyda **368** O FNYCHWYR

Key topics included:

Cyfrifyddiaeth	Marchnata ac Arallgyfeirio
Cynllunio	Busnes
Gyfraith	Llygredd Amaethyddol
Taliadau Gwledig Cymr	TG

Yn ystod y cyfnod hwn y pwnc mwyaf cyffredin oedd Llygredd Amaethyddol. Mae hyn oherwydd y rheoliadau newydd sy'n cael eu rhoi yn eu lle gan Lywodraeth Cymru. Mae ar fusnesau angen cyngor ar sut i lenwi'r llyfr gwaith ac felly cynhaliwyd cyfres o gymorthfeydd wyneb yn wyneb ar draws Cymru. Roedd y cymorthfeydd yma'n edrych ar sut i lenwi'r llyfr gwaith gan ganolbwyntio ar gyfrifiadau llwyth nitrogen, cynllunio nitrogen a chynhyrchu slyri.

Dyma rywfaint o'r adborth yr ydym wedi ei dderbyn gan fusnesau yn dilyn y cymorthfeydd:

*"Rhoddodd y gymhorthfa'r wybodaeth y mae arnaf ei hangen i mi gydymffurfio â'r rheoliadau, yn ogystal â chynghor ac anogaeth i symud ymlaen a llenwi'r llyfr gwaith."*

## Mentora



**44** MENTORAI WEDI EU MENTORA AR THEMÂU BUSNES  
**127** MENTAI NEWYDD YN YSTOD Y CYFNOD HWN


Y pynciau mwyaf poblogaidd a ymgeisiwyd ar eu cyfer yn ystod y cyfnod oedd:

Twristiaeth	TGCh	Olyniaeth
-------------	------	-----------

## Rhwydwaith Arddangos


### Defnyddio meddalwedd Farmax i wneud penderfyniadau rheoli – Safle Arddangos Glanmynys

Cafodd prosiect ei wneud yn fferm Glanmynys i sefydlu meddalwedd Farmax, sef meddalwedd sydd yn asesu gofynion y stoc o ran mater sych ochr yn ochr â mater sych a gynhyrchir o'r porthiant. Mesurwyd glaswellt bob pythefnos yn fferm Glanmynys a mewnbwyd y mesuriadau i'r feddalwedd Farmax. Mae Ffigwr 1 yn arddangos lefelau twf a galw 2022 i'w gweld yn ffigwr 1, a thynnir sylw at wasgbwynt yn Ionawr a Chwefror ac eto rhwng Mehefin a Medi 2022 (wedi eu cylchu'n goch).



Ffigwr 1: Porfa ar gyfer Glanmynys rhwng Rhagfyr 2021 a Thachwedd 2022.

O gael y data gwaelodlin hwn, gallwn edrych ymlaen at 2023. Mae FARMAX yn rhagweld dau wasgbwynt yn y gwanwyn a'r haf, er nad ydynt mor ddwys ag yn 2022. Gwnaed gwaith ymchwil i ddod i benderfyniad er mwyn gallu lleddfu'r gwasgbwyntiau hyn. Y senario gorau a nodwyd oedd anfon 840 o famogiaid i ffwrdd fel defaid cadw dros y gaeaf. Mae hynny'n cael gwared ar y prinder mater sych rhwng mis Rhagfyr 2022 a mis Mawrth 2023 (blwch coch) gan y bydd cyfle i'r glaswellt ail-dyfu. Erbyn Gorffennaf 2023 (blwch coch), mae'r cyflenwad yn gostwng o dan y llinell darged yn sgil neilltuo rhan o'r borfa ar gyfer silwair, ond o fis Medi 2023 (blwch glas) ymlaen, mae'r cyflenwad yn parhau ar y targed.



Ffigwr 2: Twf porfa yng Nglanmynys rhwng Hydref 2021 – Medi 2024.

Mae anfon mamogiaid i aeafu hefyd yn creu rhagolwg o well pwysau wrth fynd at yr hwrdd a diddychu, yn ogystal â mwy o wryn yn cael eu diddychu a hynny ar bwysau trymach.

Gan edrych ar ffactorau economaidd y senario hon, gan ystyried y gwelliant mewn allbwn anifeiliaid a amlinellir uchod, mae'r elw gros yn cynyddu o £89/ha a borir ar ôl amcangyfrif bod cost y defaid cadw yn £1.50/mamog/wythnos.

Mae gallu rhagweld a chreu senarios wedi golygu bod Carine a Peredur yn teimlo'n hyderus i anfon mwy o famogiaid i ffwrdd dros y gaeaf i leihau prinder posibl yn y dyfodol. Yr wybodaeth fwyaf brawychus a gafwyd drwy'r dull hwn o ragweld yw sut mae'r penderfyniadau rheoli a gymerir nawr yn cael effaith hirdymor ac, yn yr enghraifft hon, mae'n cymryd bron i ddwy flynedd i gyrraedd pwynt lle mae'r cyflenwad a'r lefelau galw yn cyfateb.

## Manteision o ran costau magu eich heffrod llaeth eich hun – Safle Ffocws Gwernhefin

Trwy waith ymchwil AHDB, roedd cost magu heffer laeth ar fferm laeth yn y Deyrnas Unedig yn cyrraedd cyfartaledd o £1,800 gan amrywio o ychydig dros £1,000 i dros £3,000 (gan gynnwys cost cyllid ac ail-fuddsoddi). Bwriad y prosiect oedd pennu beth fyddai cyfanswm cost magu heffer gyfnewid yng Ngwernhefin ac a oes mantais o ran cost o wneud hyn mewn cymhariaeth â gweithredu buches sy'n cael ei phrynu i mewn a chreu incwm o wartheg biff, fel y mae'r fferm ar hyn o bryd. Y cam cyntaf oedd gwerthuso'r cyfleusterau lloeau a stoc ifanc presennol yng Ngwernhefin i ddeall y cryfderau a'r gwendidau ac yna creu cynllun i ddylunio cyfleusterau lloeau newydd mewn rhan o'r sied newydd sydd ger y parlwr cylchdro. Yn ail, roedd deall cost magu heffrod yn allweddol i'r prosiect cyfan er mwyn gwerthuso'r costau magu mewn cymhariaeth â'r incwm o'r anifeiliaid biff fyddai'n cael ei golli.

Fel yr amlygwyd yn barod, mae amrywiaeth mawr o ran costau magu heffrod ac mae'n hysbys hefyd bod y risg y bydd afiechyd yn cael ei ddwyn i mewn i'r fuches yn llawer uwch wrth weithredu system lle mae'r fuches yn cael ei phrynu i mewn.

Mae'r cynnydd mwyaf yn y costau magu yn digwydd os na fydd yr heffrod cyfnewid yn lloea erbyn 24 mis oed. Mae hyn yn allweddol i system loea mewn bloc, ac felly mae pwysigrwydd mawr i'r siediau a'r porthi, fel yr amlinellir uchod.

Trwy ddilyn protocolau caeth, cyfrifwyd y costau canlynol i Gwernhefin fagu heffrod llaeth cyfnewid:

- Geni hyd ddiddyfnu – £424/pen
- Diddyfnu i 12 mis – £291/y pen
- 12 mis hyd loea – £426/y pen

Cyfanswm cost magu heffrod llaeth – £1,141

Mae'r ffigyrau hyn yn cynnwys yr holl borthiant, llafur, peiriannu, dŵr, costau pori a ffigwr ceidwadol o £100/y pen ar gyfer ail-fuddsoddi/talu costau ariannu, ond dim gwerth llo. Mae'n bwysig nodi hefyd bod y ffigyrau yn seiliedig ar ffigyrau trydan 2021/22 o 15c/yr uned.

Wedyn mae angen cymharu ag anifeiliaid biff. Yn gryno, mae'r costau magu'r un fath gan y dylai'r holl anifeiliaid dderbyn yr un lefel o faethiad, llafur ac ati.

Yr unig wahaniaeth yw arbediad o £35/y pen o gostau bridio ar gyfer heffrod llaeth, ond mae hyn yn cael ei gyfnewid gyda chyfartaledd o £44/y pen ar gyfer ffioedd marchnad a chludiant.

Felly, byddai costau magu heffrod yn £1,141/y pen ar gyfartaledd a byddai costau magu biff ar gyfartaledd yn £1,150/y pen.

O'r ffigyrau a amlinellir uchod, mae'n amlwg mai ychydig iawn o incwm fydd yn cael ei golli, os o gwbl, o symud i fagu heffrod llaeth yng Ngwernhefin.

Bydd y fantais ychwanegol o newid y system reoli hefyd yn rhoi cyfle i fagu unfurfaeth i'r fuches, gan ddefnyddio'r tir pori'n well a chael gwared ar y risg o brynu afiechyd i mewn.

## Gwasanaeth Cyngori

Nifer y busnesau sydd wedi derbyn cymorth trwy gategoriâu Busnes y Gwasanaeth Cyngori yn ystod y cyfnod hwn:



**107** o unigolion wedi derbyn cymorth un i un trwy'r categorïau Busnes y Gwasanaeth Cyngori yn ystod y cyfnod hwn.



**10** unigolyn mewn 5 grŵp Menter ar y Cyd wedi derbyn cefnogaeth trwy gategoriâu Busnes y Gwasanaeth Cyngori yn ystod y cyfnod hwn.

Adborth gan fusnesau ar y gwasanaeth Cyngori hwn:

*“Roedd y cyngor yn ddefnyddiol iawn i ddangos effeithlonrwydd ein busnes a bod yn agored i newid rhai rhannau o'n systemau ffermio ar gyfer gofynion y dyfodol.”*

*“Ymgynghorydd ffantastig, wedi bodloni'r holl ofynion i wneud y cais am NMIS. Argymhell y gwasanaeth yn gryf.”*

## Canolfan Cyfnewid Gwybodaeth



NITROGEN AC AMAETHYDDIAETH – BETH YW EIN SEFYLLFA?



RHANNU TIR AC ARBED TIR – YSTYRIAETHAU AR GYFER FFERMIO GYDA NATUR



SYSTEMAU CYLCHOL MEWN AMAETHYDDIAETH RHAN 1: CYNALIADWYEDD CYNHYRCHU DA BYW

## Grwpiau Trafod



CYNHALIUYD

**54**

O GYFARFODYDD GRWPIAU TRAFOD

gyda



**291**

O FYNYCHWYR



### Adolygu costau ynni ar y fferm – Grŵp llaeth Gwastadeddau Gwent

Bydd costau ynni'n cynyddu'n ddramatig dros fisoedd y gaeaf i lawer o fusnesau ac mae'n boen meddwl i lawer o ffermwyr, yn y sector llaeth yn enwedig.

Ymunodd Chris Brooks â grŵp trafod llaeth Gwastadeddau Gwent i drafod y pwnc yn fwy manwl mewn digwyddiad ar y fferm. Gosodwyd monitor ar y fferm yr wythnos cyn y cyfarfod i gofnodi defnydd a dynodi patrymau.

I ddechrau, amlinellodd Chris nifer o resymau sydd wedi arwain at y cynnydd dramatig mewn prisiau dros yr ychydig fisoedd diwethaf, gan gynnwys prinder yn y cyflenwad a chynnydd mewn prisiau nwy. Mae hyn wedi achosi i gostau ynni gynyddu hyd at 250% o 17c i 60c.

Aeth ymlaen wedyn i drafod sut y gall busnesau geisio ymdopi â'r cynnydd hwn gan gynnwys cynnal archwiliad ynni i ddynodi ble mae'r ynni'n cael ei ddefnyddio, gwella effeithlonrwydd ynni trwy leihau defnydd diangen ar ynni, ac edrych ar y potensial ar gyfer ynni adnewyddadwy ar ffermydd.

Aeth Chris trwy'r data o'r monitor oedd wedi ei osod ar y fferm ac wedi casglu data defnydd o ynni am yr wythnos flaenorol. Nododd rai meysydd allweddol i ymchwilio ymhellach iddynt i arbed ynni ar sail y canlyniadau. Roedd y rhain yn cynnwys inswleiddio tanciau a phrynu uned adfer ynni.

Ar ôl cerdded y fferm, dychwelodd y grŵp i drafod dewisiadau adnewyddadwy a chanolbwyntio yn bennaf ar ddichonolrwydd paneli solar ar ffermydd llaeth.

## Clinigau



CYNHALIUYD **107** CLINIG

gyda



**419**

O FYNYCHWYR

## Cynllun Datblygu Personol

**173**

O GYNLLUNIAU DATBLYGU PERSONOL WEDI EU CREU YN YSTOD Y CYFNOD HWN



## Gweminarau



GWEMINARAU NEU DDIGWYDDIADAU **38**



Examples of webinars or events held include:

Mesurau ionawr 2023 y rheoliadau rheoli llygredd amaethyddol – beth sy'n newydd?



**136**

O FYNYCHWYR

Arallgyfeirio



**31**

O FYNYCHWYR

## Cymharu technegau cadw ar y safle ar gyfer sudd bedw ffres o Gymru i'w ddefnyddio mewn cynnyrch crefft gan fusnesau lleol

Nod y prosiect EIP Cymru oedd treialu tri phrif ddull prosesu ar bedwar safle ar draws Cymru dros 2021 a 2022 i bennu eu costau cymharol â manteision eu defnyddio ar y fferm. Y dulliau a brofwyd oedd: osmosis gwrthdro, wrn arlwygo a stôf goed tu allan.

### Canfyddiadau allweddol:

- Yn gyffredinol mae'r sudd bedw yn dangos perthynas â maint y goeden yn ôl diamedr y boncyff. Ond, amrywiodd cynnyrch coed unigol o faint tebyg o ychydig ml i > 10 litr, heb unrhyw berthynas i'w gweld ag unrhyw nodweddion gweladwy i'r goeden na'r safle. Mae graffiau o'r cynnyrch dyddiol ar gyfer coed unigol yn awgrymu bod y cydamseru o ran llif y sudd yn isel yn y coedlannau. Yn ymarferol, gall y cynnyrch sudd cyffredinol gael ei dra-arglwyddiaethu gan gynhyrchiant gan nifer fechan o goed ac mae'n anodd rhagweld pa goed fydd yn gynhyrchiol iawn. Mae hyn yn awgrymu strategaeth o dapio llawer o goed ar ddechrau'r tymor a gadael y rhai sy'n sych ar ôl ychydig ddyddiau a symud y tapiâu i goed newydd efallai.
- Roedd yr archoll ar ôl tapio yn gwella'n dda yn gyffredinol, gyda'r archoll allanol yn cau ar ôl 18 mis. Ond mae'r difrod o'r archoll yn gymesur â maint yr archoll, sy'n cynnwys niwed trwy arferion gwael. Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu y byddai tapio coed unigol mewn blynyddoedd gwahanol yn fuddiol, ac y dylid dilyn cyfarwyddiadau'n ofalus o ran maint a lleoliad y tapiâu.
- Er mwyn i dapio bedw fod yn gynaliadwy, dylai cyfaint y pren sy'n mynd i fethu dargludo oherwydd y tapio fod yn llai na 10% o faint y parth tapio. Amcangyfrifwyd y gall coeden gael ei thapio rhwng 6 a 10 gwaith.
- Osmosis gwrthdro yw'r dull rhataf a chyflymaf o grynhoi sudd ffres ond mae angen prynu offer arbenigol i gychwyn. Er nad yw osmosis gwrthdro yn gallu cynyddu'r cynnwys siwgr tu hwnt i 5°Bx bydd yn tynnu tua 70% o'r dŵr. I unrhyw un sy'n tapio mwy na llond llaw o goed, byddai'n werth buddsoddi mewn osmosis gwrthdro a rhewi'r crynhoad ar gyfer ei brosesu mewn twr mawr yn nes ymlaen.
- Mae wrnau arlwygo yn rhad a gellir eu cael yn ail law. Bydd un o'r rhain wedi ei gosod ar 100oC yn berwi'r sudd ac yn cael gwared ar y dŵr trwy anweddu. Mae hon yn broses araf, ond gellir gadael yr wrn am nifer o oriau heb roi sylw iddi. Mae cynhesu'r sudd gyda thrydan yn gymharol ddrud ond mae'n arbed amser staff ac i gyfaint bach, gall yr wrn gael ei defnyddio ar gyfer y broses gyfan o sudd ffres i surop.
- Anweddu'r sudd ar badelli gastronom ar stôf goed tu allan oedd y ffordd fwyaf effeithlon ar gyfer prosesu llawer o sudd. Mae stôf goed yn rhad ac yn hawdd ei hadeiladu ond mae angen lleoliad addas, diogel tu allan, ei gwylio trwy'r amser a digon o goed tân.
- Roedd y tri dull o brosesu sudd ar y safle yn gweithio ac mae'n anodd dynodi pa un oedd y dull 'gorau' neu'r mwyaf 'effeithlon'. Byddai pa ddull fyddai'r rhataf a/neu'r mwyaf effeithlon yn dibynnu ar raddfa'r cynhyrchu, a pha danwydd, cyfleusterau ac offer sydd ar gael i'r un sy'n tapio. Rhoddwyd ffigyrau mewnbn/allbn er mwyn galluogi tapiwr i lunio ei farn ei hun ar y dull y mae am ei ddefnyddio.

Agwedd o'r prosesu	Wrn arlwygo	Osmosis gwrthdro	Stôf bren
Costau cychwynnol prynu'r offer	£119-£161	£388-£500	£380 yn cynnwys briciau newydd, fflw a phadelli anweddu
Costau rhedeg parhaus	Isel? Dim costau yn ailgodi i gynnal, a dylai bara am 5-10 mlynedd?	Meinwe cyfnewid: £114 x 2 (Pentair) £45 x 1 (RB5) + £1.20 yr un am hidlyddion x 3 tymor	Cyfnewid elfennau sydd wedi dioddef niwed oherwydd gwres yn achlysurol (blociau a griliau)
Gostyngiad yn y cyfaint dros gyfnod y treial	Hyd at 75% o'r dechrau	Hyd at 29% o'r dechrau (cyfartaledd)	Hyd at 89% o'r dechrau
Amser ar gyfartaledd i leihau cyfaint o 1 litr	23 munud	7 munud	6.5 munud
Amser ar gyfartaledd i leihau cyfaint 30 litr o sudd o 50%	~600 munud gan ddibynnu ar y gosodiad tymheredd. A 15-30 munud os oedd y sudd yn cael ei brosesu ar ôl ei rewi	95 – 100 munud gan ddibynnu ar y system osmosis gwrthdro	~180 munud pan fydd y tân yn rhedeg yn dda
Cyfartaledd y costau ynni am bob awr	£0.45 (am £0.17 yr uned)   £1.02 (am £0.34 yr uned)	£0.01 - £0.03 Bychan iawn	0 (os oes tanwydd ar gael am ddim) - £3.08 (prisiau 2022 ~2x hyn)
Uchafswm y crynhoad siwgr a gafwyd	28%	5%	30%
Angen goruchwyliaeth wrth brosesu	Yr un fath ar y dechrau a thua'r diwedd	Rhywfaint, tua'r diwedd yn bennaf	Gwiriadau cyson bob 30 munud trwy'r amser
Y cyfaint mwyaf effeithlon o sudd i'w brosesu	~30 litr i bob wrn	50 i 100 litr	150 i 200 litr

Ffigur 3. Cymharu canlyniadau'r gwahanol systemau prosesu sudd.